# TAG CYNLLUN MARCIO

**HAF 2016**

**CYMRAEG AIL IAITH – CA6**
**1386/01**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2016.  Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad.  Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth.  Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**TAG CYMRAEG AIL IAITH – CA6**

**HAF 2016**

**ADRAN A – Defnyddio'r Iaith**

**C.1 Cyfanswm 30 marc**

**(i) 18 marc (6 x 3)**

**3 marc** am bob brawddeg sydd yn dangos yn eglur ystyr a defnydd yr eitemau ac **yn berffaith gywir** o ran cywirdeb iaith.

Cosbir hyd at 2 farc am wallau iaith mewn brawddegau sy'n dangos yn eglur ystyr a defnydd yr eitemau.

[cosbi ½ am wall treiglo/ mân wall
cosbi ½ marc am atalnodi'n anghywir
cosbi ½ marc am gamsillafu
cosbi 1 marc am wall cystrawennol – berf / arddodiad / y fannod / rhagenw].

**0 marc** os nad yw'r ystyr yn hollol glir.

**(ii) 12 marc (4 x 3)**

**3 marc** am bob brawddeg sydd yn dangos yn eglur ystyr a defnydd yr eitemau ac **yn berffaith gywir** o ran cywirdeb iaith.

Cosbir hyd at 2 farc am wallau iaith mewn brawddegau sy'n dangos yn eglur ystyr a defnydd yr eitemau.

[cosbi ½ am wall treiglo
cosbi ½ marc am atalnodi'n anghywir
cosbi ½ marc am gamsillafu
cosbi 1 marc am wall cystrawennol – berf / arddodiad / y fannod / rhagenw].

**0 marc** os nad yw'r ystyr yn hollol glir.

**C.2 Cyfanswm 15 marc**

**1 marc yr un** am bob eitem sydd wedi'u tanlinellu isod. Rhaid i'r eitem honno fod yn gwbl gywir er mwyn ennill marc. **Ni ddyfernir hanner marciau.**

Atebion cywir:

(i) Roedd hi wedi darllen y llyfr **/** cyn iddi (hi) fynd **/** i'r wers/ dosbarth [3]
(ii) Gofynna/wch iddo (fe/fo) **/** amdanyn nhw **/** yn y bore
(iii) Cynhelir y parti (Mae'r parti'n cael ei gynnal) **/** yn y gwesty **/** wrth y / wrth ymyl/ ger/ ar bwys/ yn agos i'r bont
(iv) Arhosodd e/o yno **/** am dair blynedd **/** cyn (iddo) symud
(v) Mae hi'n meddwl **/** eu bod nhw'n mynd **/** ar wyliau / ar eu gwyliau cyn (bo) hir.

(Gellir defnyddio'r rhagenw **o / fo** yn hytrach nag **e / fe**).



© WJEC CBAC Cyf.

**ADRAN B – Barddoniaeth**

**C.3 Cyfanswm 75 marc**

| | **AA2** | **AA3** |
|---|---|---|
| **(a)** | 10 | 10 |
| **(b)** | 10 | 10 |
| **(c)** | 20 (synoptig) | 15 |
| **Cyfanswm** | 40 | 35 |

(Meini prawf mewn print bras – asesu synoptig yn unig)

(a) **20 marc** (**10 marc** cynnwys : **10 marc** mynegiant)

'Dadansoddwch gynnwys y gerdd *Dysgwr.* Gallwch sôn am y cyfrifoldeb sydd ar bobl i ddysgu Cymraeg ac hefyd agwedd y Cymru Cymraeg tuag ar y dysgwyr hyn.'

Disgwylir cyfeiriadau at y ffeithiau canlynol:

Yn y pennill cyntaf mae'r bardd yn:
- pwysleisio pwysigrwydd dysgu Cymraeg yng Nghymru yn ôl y canran o'r bobl sy'n siarad yr iaith yn barod.
- awgrymu mai braint yw bod â'r gallu i siarad Cymraeg.
- cwestiynu'r ystadegau.
- defnyddio'r dywediad 'iaith y nefoedd' i bwysleisio pwysigrwydd yr iaith yng Nghymru.

Yn pennill 2 mae'r bardd yn:
- tynnu sylw at y problemau sy'n bodoli oherwydd y mân wahaniaeth rhwng iaith y gogledd a iaith y de.
- awgrymu mai rhywbeth eithaf dibwys a chwerthinllyd yw'r gwahaniaeth hyn.

Yn pennill 3 mae'r bardd yn:
- cynnig gair o brofiad gan awgrymu bod rhaid bod yn glyfar iawn i ymdopi â'r dasg o ddysgu siarad Cymraeg.
- rhoi gobaith i'r darllenydd y bydd modd dysgu iaith y gogledd a iaith y de yn y diwedd.
- awgrymu bod hyn yn gamp anhygoel.

Yn pennill olaf mae'r bardd yn:
- tanlinellu'r ffaith mai camp arbennig yw llwyddo i ddysgu siarad Cymraeg.
- cloi'r gerdd drwy ddweud eu bod hi'n amhosibl cuddio'r ffaith mai dysgwr ydy e / hi rhag y Cymry Cymraeg.
- awgrymu diffyg sensitifrwydd ar ran y Cymry Cymraeg wrth iddynt ofyn 'Onid dysgwyr 'ych chi?'



© WJEC CBAC Cyf.

(b) **20 marc** (**10 marc** cynnwys : **10 marc** mynegiant)

'Dadansoddwch arddull y gerdd *Dysgwyr* ac esboniwch resymau'r bardd am ddefnyddio'r technegau hyn.'

Disgwylir trafod nodweddion arddull y gerdd ynghyd â mynegi barn ar effeithiolrwydd yr arddull a'r technegau arbennig.

Gellir cyfeirio at y canlynol:

- symlrwydd y teitl sy'n dal sylw'r darllenydd ar unwaith.
- cerdd yn y wers rydd.
- cerdd sgyrsiol a phersonol ei naws. Mae'r bardd fel pebai'n anerch ei gynulleidfa, yn rhannu ei brofiadau ac yn ceisio ennyn cydymdeimlad y darllenwyr.
- ymadroddion fel 'meddai'r ugain y cant', 'meddech chi', 'ydy, mi wranta' 'meddai'r Cymru yn ychwanegu at y naws sgyrsiol ac hefyd yn cynnwys y darllenydd yn y drafodaeth.
- nifer o gwestiynau rhethregol sydd hefyd yn cael yr un effaith â'r ddau bwynt uchod.
- pedair pennill eithaf cyson o ran hyd - efallai i awgrymu cysondeb yr ymdrech mae dysgwr yn ei roi i astudio'r iaith er mwyn llwyddo.
- hyd y llinellau'n amrywio i greu rhythm ac hefyd yn symbol o'r amrywiaeth o emosiynau a ddaw i ran dysgwyr.
- patrwm odl anghyson - i dynnu sylw at ambell i agwedd yn y gerdd ond hefyd i bwysleisio'r anghysondebau rhwng iaith y gogledd a iaith y de.
- ailadrodd iaith, diwedd, camp/us.
- eironi'r ddwy linell sy'n cloi'r gerdd sydd unwaith eto'n ennyn cydymdeimlad y darllenwyr ac yn sicrhau bod neges y gerdd yn aros yn y meddwl.
- defnydd o'r rhagenw lluosog 'chi' yn hytrach na 'ti' efallai i bwysleisio teimlad o ddiffyg perthyn ar ran y dysgwyr ond hefyd mae'r bardd yn awyddus i anerch y Cymru Cymraeg i gyd.
- defnydd o 'enjambement' i wneud i'r gerdd lifo ac ychwanegu at rhythm y gerdd.
- defnydd o gromfach i dynnu sylw at agweddau pwysig yn y gerdd ac ychwanegu pwyslais.
- ansoddeiriau positif: 'breintiedig', 'athrylith', 'gwych', 'campus' a'r rhain yn eu tro'n gwrthgyferbynnu â geiriau fel 'anodd' ac 'amhosibl' sydd yn pwysleisio maint y dasg sydd yn wynebu dysgwr.



© WJEC CBAC Cyf.

(c) **35 marc** (**20 marc** cynnwys : **15 marc** mynegiant)

'Prif thema'r gerdd hon yw'r rheidrwydd i fod yn rhan o gymdeithas yng Nghymru. Manylwch ar y thema hon trwy gyfeirio at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd neu lunyddiaeth a wyliwyd sy'n ymdrin â'r un thema a'u cysylltu gyda'r gerdd *Dysgwyr.'*

Disgwylir croesgyfeirio at destunau penodol a ddarllenwyd neu wyliwyd yn ystod y cwrs. **Rhaid bod yna gysylltiad clir â thema'r gerdd** dan sylw sef, rheidrwydd i fod rhan o gymdeithas yng Nghymru.

Pa ddehongliad bynnag a geir neu drywydd a ddilynir rhaid cyfeirio at y gwahanol destunau yn y cwrs - y cerddi, y ffilmiau, y ddrama, y storïau **ac** erthyglau penodol.



© WJEC CBAC Cyf.

Thema:
Rheidrwydd i fod yn rhan o gymdeithas yng Nghymru.

**rheidrwydd** ⇄ **cyfrifoldeb**

Cerdd: **Diwrnod y Gêm**
Yr angen i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg, pleidleisio dros bethau Cymreig a bod yn rhan o'r gymdeithas nid yn unig pan mae Cymru'n chwarae rygbi.
Gellir dadlau nad oes rheidrwydd ar unigolion i ddysgu'r Gymraeg i wneud hyn yn enwedig os nad yw'r Cymry Cymraeg yn eu trin yn foneddigaidd - '**Onid dysgwr 'ych chi?'**

Cerdd: **Ailgylchu**
Rheidrwydd yw ailgylchu er mwyn bod yn aelod cyfrifol o'r gymdeithas sydd yn gweithio i sicrhau dyfodol ieuenctid y gymdeithas honno.

Ffilm: **Hedd Wyn**
Roedd cyfrifoldeb ar Hedd Wyn dros ei deulu a'i ardal ac yn wir dros Gymru. Rheidrwydd felly oedd iddo benderfynu mynd i ryfel yn lle ei frawd Bob.
Hefyd roedd problem yn ardal Trawsfynydd oherwydd nad oedd y milwyr o Saeson yn gallu cydymdeimlo â'r gymdeithas Gymraeg na bod yn rhan ohoni oherwydd nad oedd yr iaith ganddynt.

Ffilm: **Solomon a Gaenor**
Mae Gaenor yn Gymraes ac mae ei theulu'n teimlo bod rheidrwydd arni i fod yn driw i'r gymdeithas honno. Ond hefyd wrth gwrs mae cyfrifoldeb ar Solomon sydd yn dad i'w phlentyn.

Cerdd: **Glas**
Mae Bryan Martin Davies yn teimlo'n falch o'r gymdeithas mae o'n perthyn iddi ac mae rheidrwydd arno i fod yn rhan o weithgareddau'r gymdeithas honno. Er mwyn bod yn aelod cyflawn o'r gymdeithas yn y cyfnod hwnnw rheidrwydd fyddai dysgu siarad Cymraeg.

Stori fer: **Yr Ymwelydd**
Mae cyfrifoldeb ar Elgan i fod yn rhan o'r gymdeithas yn y clwb a theimlo'n gartrefol yn ei ardal enedigol.

Drama: **Siwan**
Ffrances ydy hi ond rheidrwydd oedd sicrhau etifeddiaeth Dafydd a thiroedd Llywelyn.
Er ei bod hi'n gallu siarad Cymraeg, mae eironi yn y ffaith bod Siwan yn dal i deimlo nad yw hi'n perthyn yng Nghymru. Efallai mai'r Cymry sydd ar fai fel ag y mae James Allport yn awgrymu yn y gerdd.

**Hefyd** : e.e
A gymri di Gymru?
Hon
Gêm bêl-droed
Cymru (Gyn ti cariad . ..)
Cilmeri
Etifeddiaeth
Colli Iaith
Ffilm: Branwen

Cerdd: **Y Ffatri'n Cau**
Y mae'r defnydd o 'Pyncs Rule OK a rhegfeydd' yn awgrymu nad Cymraeg yw iaith yr ardal mwyach. Mae hyn yn ei dro wedi achosi pobl ifanc i symud o'r ardal ac estroniaid sydd ddim yn teimlo 'rheidrwydd i ddysgu Cymraeg' i symud i mewn. Mae hyn yn esbonio'r lleihâd yn nifer y siaradwyr Cymraeg 'ugain y cant breintiedig …'

© WJEC CBAC Cyf.

| | AA2(a) a (b) | | AA3 (c) |
|---|---|---|---|
| **(a) (b)**<br>**8-10**<br><br>**(c)**<br>**16-20** | • arddangos gwybodaeth eang a manwl-gywir o'r testunau<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol ac yn dangos iddynt eu deall drwy eu cyflwyno'n gywir ac yn gydlynus<br>• **croesgyfeirio rhwng gwahanol agweddau'r pwnc yn ôl yr angen**<br>• arddangos dealltwriaeth gadarn o'r cysyniadau gan ddadansoddi ac ymresymu'n ddeallus<br>• datblygu ac ehangu syniadau yn drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau yn gywir ac yn bwrpasol<br>• cyflwyno dadleuon gwreiddiol gan ymateb yn aeddfed ac yn dreiddgar | **(a) (b)**<br>**8-10**<br><br>**(c)**<br>**12-15** | • mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• saernïo'u gwaith yn fanwl a gofalus<br>• rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn sensitif<br>• mynegi barn yn hyderus ac yn rymus<br>• arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| **(a)(b)**<br>**7**<br><br>**(c)**<br>**14-15** | • arddangos gwybodaeth fanwl o'r testun<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol ac yn dangos iddynt eu deall drwy eu cyflwyno'n gywir<br>• **croesgyfeirio rhwng gwahanol agweddau'r pwnc yn ôl yr angen**<br>• arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau gan ddadansoddi ac ymresymu'n ddeallus<br>• datblygu ac ehangu'r syniadau yn drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau perthnasol<br>• cyflwyno dadleuon gwreiddiol gan ymateb yn ddeallus | **(a)(b)**<br>**7**<br><br>**(c)**<br>**11** | • mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• cynllunio'u gwaith yn fanwl<br>• rhoi sylw gofalus i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull yn briodol<br>• mynegi barn yn hyderus ac yn glir ac yn ei chefnogi â thystiolaeth berthnasol<br>• arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen |



© WJEC CBAC Cyf.

| | AA2(a) a (b) | | AA3 (c) |
|---|---|---|---|
| **(a) (b)**<br>**6**<br><br>**(c)**<br>**12-13** | • arddangos gwybodaeth helaeth o'r testunau<br>• crynhoi ffeithiau perthnasol a'u cyflwyno'n glir ac yn gydlynus<br>• **croesgyfeirio rhwng rhai o wahanol agweddau'r pwnc**<br>• arddangos dealltwriaeth o'r cysyniadau gan ymresymu'n effeithiol<br>• datblygu ac ehangu'r prif syniadau'n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau addas<br>• cyflwyno dadleuon yn ddeallus ac yn ddychmygus | **(a)(b)**<br>**6**<br><br>**(c)**<br>**9-10** | • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir mewn gwahanol sefyllfaoedd ac at wahanol ddibenion<br>• cynllunio'u gwaith yn ofalus<br>• rhoi sylw i gywair, ffurf a chynulleidfa drwy amrywio'r arddull<br>• mynegi barn yn effeithiol ac yn ei chefnogi â thystiolaeth berthnasol<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael dda ar ramadeg a chystrawen |
| **(a)(b)**<br>**5**<br><br>**(c)**<br>**10-11** | • arddangos gwybodaeth briodol o'r testun gan gyflwyno ffeithiau perthnasol yn gywir<br>• **cyfeirio at rai o wahanol agweddau'r pwnc**<br>• arddangos dealltwriaeth o'r prif gysyniadau<br>• datblygu ac ehangu rhai syniadau<br>• defnyddio dyfyniadau addas ar adegau<br>• cyflwyno rhai dadleuon yn synhwyrol | **(a)(b)**<br>**5**<br><br>**(c)**<br>**8** | • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir wrth ysgrifennu testunau gwahanol<br>• cyflwyno gwaith yn eithaf gofalus<br>• arddangos ymwybyddiaeth o gywair, ffurf a chynulleidfa<br>• mynegi barn ac yn ei chefnogi â rhesymau perthnasol<br>• arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen |
| **(a)(b)**<br>**4**<br><br>**(c)**<br>**7-9** | • arddangos gwybodaeth o gynnwys testunau drwy gyflwyno ffeithiau perthnasol a chreu cymariaethau<br>• **cyfeirio at rai elfennau penodol yn y gweithiau a drafodir wrth ddatblygu syniadau**<br>• dyfynnu o'r testunau'n achlysurol<br>• cyflwyno dadleuon yn syml | **(a)(b)**<br>**4**<br><br>**(c)**<br>**6-7** | • mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir ar y cyfan wrth ysgrifennu testunau uniongyrchol<br>• arddangos ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno gwaith<br>• mynegi barn ac yn ei chefnogi â rhesymau dilys<br>• defnyddio ystod o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen |
| **(a)(b)**<br>**0-3**<br><br>**(c)**<br>**0-6** | • bydd yr ymgeisydd yn arddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig | **(a)(b)**<br>**0-3**<br><br>**(c)**<br>**0-5** | • bydd yr ymgeisydd yn arddangos rhai o nodweddion cadarnhaol ymgeisydd gradd E ar adegau yn unig |

Dylid defnyddio’r symbolau canlynol wrth farcio’r cwestiwn hwn:

/\ /\ /\ o dan wall cystrawennol
o o amgylch gwall treiglo
_ mân wallau/ camsillafu



© WJEC CBAC Cyf.